Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

# Gwarchodaeth rhag y frech goch

Mae achosion o'r frech goch yn cynyddu ledled y DU.

Mae'r frech goch yn heintus iawn a gall fod yn ddifrifol iawn.

Mae'n lledaenu'n hawdd rhwng pobl nad ydynt wedi'u brechu.

Gall achosi salwch difrifol fel llid yr ymennydd.

Gall pobl, gan gynnwys plant, farw o'r frech goch.

Yr amddiffyniad gorau yw dau ddos o frechlyn sy'n amddiffyn rhag y frech goch.

Mae brechu rhag y frech goch yn rhad ac am ddim.

Mae'r brechiad MMR yn gwarchod rhag clwy'r pennau a rwbela, yn ogystal â'r frech goch.

**Mae ein cofnodion yn dangos nad ydych chi / eich plentyn wedi cael dau ddos o frechlyn sy'n cynnwys MMR.**

Bydd tîm nyrsio neu imiwneiddio'r ysgol yn ymweld â'r ysgol ar

i gynnig y brechiad MMR.

Darllenwch y daflen wybodaeth am y brechiad MMR a llenwch y ffurflen ganiatâd erbyn

Os mai hwn yw eich brechiad MMR cyntaf chi / eich plentyn, bydd angen ail ddos bedair wythnos yn ddiweddarach.

**Sganiwch y cod QR neu ewch i icc.gig.cymru/MMRV-MMR i gael gwybod mwy am frechiadau rhag y frech goch**

© Ymddiriedolaeth y GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru
Ionawr 2026 | Fersiwn 2